# Darparu cymorth i’r rheiny sy’n mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â darparu cymorth i bartïon sy'n mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd, ac eithrio swyddogion. Mae'n cynnwys esbonio achosion a sicrhau bod partïon yn cael eu cyfeirio at yr ystafell berthnasol.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd, tribiwnlysoedd neu erlyniadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi partïon sy'n cyrraedd gwrandawiadau, yn unol â gofynion sefydliadol
2. cadarnhau gyda phartïon fanylion y gwrandawiadau y byddant yn eu mynychu, yn unol â gofynion sefydliadol
3. gwirio gyda phartïon bod ganddynt y wybodaeth y mae angen trefnu ei bod ar gael i swyddogion, yn unol â gofynion sefydliadol
4. sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd swyddogion, yn unol â gofynion sefydliadol
5. cadarnhau bod partïon wedi cyrraedd, yn unol â gofynion sefydliadol
6. gweithredu pan fydd partïon ar goll, yn unol â gofynion sefydliadol
7. hysbysu partïon sy'n mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd am leoliad y cyfleusterau yn yr adeilad, yn unol â gofynion sefydliadol
8. cyfeirio'r rheiny sy'n mynychu at feysydd sy'n briodol i'w gwrandawiad, yn unol â gofynion sefydliadol
9. esbonio achosion llysoedd a thribiwnlysoedd i bartïon, yn unol â gofynion sefydliadol, gan gynnwys:
9.1 codau ymddygiad
9.2 ble byddant yn eistedd
9.3 gweithdrefnau a phrotocolau y bydd disgwyl iddynt eu dilyn
10. cadarnhau gyda phartïon y math o gymorth sydd ei angen, yn unol â gofynion sefydliadol
11. cymryd camau cytûn i fynd i'r afael ag anghenion y rheiny sy'n mynychu, yn unol â gofynion sefydliadol
12. cyflwyno gwybodaeth i'r rheiny sy'n mynychu, yn unol â gofynion sefydliadol, a:
12.1 hyrwyddo dealltwriaeth
12.2 annog cwestiynau
12.3 gwirio ar gyfer dealltwriaeth
12.4 rhoi eglurhad
14. cadw gwybodaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol
15. delio ag unigolion mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo ymddygiad ac agweddau cadarnhaol, yn unol â gweithdrefnau'ch sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol sy’n berthnasol i gyfarch, paratoi a chynorthwyo partïon sy’n mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd 2. y mathau o wybodaeth a gyflwynir gan bartïon sy’n mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd 3. i bwy y mae angen trosglwyddo’r wybodaeth 4. hawliau, rolau a chyfrifoldebau partïon sy’n mynychu gwrandawiadau yn eich maes cyfrifoldeb 5. amrywiaeth y cyfleusterau sydd ar gael i’r rheiny sy’n mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd 6. gweithdrefnau brys ar gyfer gwacáu adeiladau, a’ch rôl a’u cyfrifoldebau mewn achosion brys 7. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol ar gyfer cyfeirio pobl sy’n mynychu gwrandawiadau at ardaloedd aros a’u gwrandawiad 8. rolau a chyfrifoldebau allweddol swyddogion mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yn eich maes cyfrifoldeb 9. codau ymddygiad sy’n berthnasol i’r rheiny sy’n mynychu’r llys 10. gofynion ar gyfer cymorth a allai godi, a sut i ddelio â hyn 11. pobl briodol sy’n gyfrifol am reoli trefniadau diogelu tystion, sy’n berthnasol i’ch maes gweithrediadau 12. sut i asesu p’un a oes angen cymorth ar bobl sy’n mynychu gwrandawiadau 13. gwahanol ddulliau cyfathrebu a sut i addasu’ch arddull i fynd i’r afael ag anghenion unigolion

SFJDC2

Darparu cymorth i'r rheiny sy'n mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ DC2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | llysoedd; tribiwnlysoedd; achos; cymorth; presenoldeb; achosion |